Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# Datganiad Uniondeb Ymchwil Blynyddol Prifysgol Wrecsam 2023-24

## Adran 1: Gwybodaeth gyswllt allweddol

| |
|---|
| **Enw'r sefydliad:** Prifysgol Wrecsam |
| **Math o sefydliad:** Sefydliad Addysg Uwch |
| **Datganiad data wedi'i gymeradwyo gan gorff llywodraethu:**<br><br>Pwyllgor Ymchwil: 25/09/2024<br><br>Bwrdd Academaidd: 23/10/2024<br><br>Y Bwrdd Llywodraethwyr: 24/11/2024 |
| **Cyfeiriad gwe tudalen uniondeb ymchwil y sefydliad:** https://wrexham.ac.uk/research/our-research/research-services/policies-procedures--guidelines/ |
| **Aelod hŷn o staff a enwyd i oruchwylio uniondeb ymchwil:** Yr Athro Richard Day, Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil. Richard.day@wrexham.ac.uk |
| **Bydd yr aelod o staff a enwyd yn gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw un sydd eisiau mwy o wybodaeth am faterion uniondeb ymchwil:** Frances Thomason, Pennaeth Gwasanaethau Ymchwil Frances.thomason@wrexham.ac.uk |

## Cyflwyniad

Mae Prifysgol Wrecsam wedi ymrwymo i lynu wrth egwyddorion y Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil. Mae'r Brifysgol yn parhau i ddefnyddio'r concordat fel

fframwaith i wreiddio diwylliant ac amgylched o arfer gorau ac ymchwil cyfrifol. Mae'r egwyddorion a'r ymrwymiadau yn cynnwys.

- ymrwymo i gynnal y safonau uchaf o gywirdeb ac uniondeb ym mhob agwedd ar ymchwil
- sicrhau bod gwaith ymchwil yn cael ei gynnal un unol â'r fframweithiau, ymrwymiadau a safonau moesol a chyfreithiol priodol
- cefnogi amgylchedd ymchwil sydd wedi'i seilio ar ddiwylliant o uniondeb ac yn seiliedig ar lywodraethiant da, arfer gorau, a chefnogaeth ar gyfer datblygu ymchwilwyr
- defnyddio prosesau tryloyw, amserol, cydnerth a theg er mwyn delio gyda honiadau o gamymddwyn o fewn ymchwil pan fyddant yn codi
- gweithio gyda'i gilydd i gryfhau uniondeb ymchwil

Gan gydymffurfio gydag ymrwymiad terfynol Concordat 2019, bydd Bwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar uniondeb ymchwil, sydd wedi cael ei ystyried a'i gytuno arno gan Bwyllgor Ymchwil y Brifysgol a chan y Bwrdd Academaidd cyn cael ei gyhoeddi'n gyhoeddus ar dudalennau gwe allanol y Brifysgol.

## Adran 2: Hyrwyddo safonau uchel o uniondeb ymchwil a diwylliant ymchwil positif.

## Disgrifiad o systemau a diwylliant presennol

### Polisïau a Systemau

Mae'r Brifysgol wedi buddsoddi mewn System Gwybodaeth Ymchwil Bresennol, Vidatum Academia, sy'n cynnwys modiwl ar-lein ar gyfer adolygiad moesol o ymchwil. Bydd yr holl brosiectau ymchwil sydd angen eu cymeradwyo'n foesol, fel y'u diffinnir ym Mholisi Moeseg Ymchwil y Brifysgol, yn cael eu cyflwyno drwy system ar-lein ar gyfer eu cymeradwyo. Cafodd y system ei lansio ym mis Hydref 2023 i holl staff a Myfyrwyr Ymchwil Ôl-radd ac i'r holl fyfyrwyr Meistr a Ddysgir a myfyrwyr Israddedig ym mis Hydref 2024. Mae cael system foeseg ymchwil ar-lein wedi unioni'r broses o asesu moeseg, wedi categoreiddio risgiau ymchwil, a chaniatáu ar gyfer adolygiad annibynnol a dod â thryloywder fel bod risgiau yn gallu cael eu monitro a'u hadrodd arnynt yn rheolaidd.

Mae gan Brifysgol Wrecsam ystod cynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau sy'n llywodraethu dros faterion uniondeb ymchwil a sicrhau ein hymrwymiad i'r gwerthoedd craidd a nodir o fewn y Cytundeb, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol.

- Polisi Moeseg Ymchwil y Brifysgol
- Rheoliadau Ymarfer Ymchwil
- Polisi Urddas yn y Gwaith

- Diogelu Plant a Pholisi Amddiffyn Oedolion Bregus
- Gweithdrefn Datgeliad er Lles y Cyhoedd (Chwythu Chwiban)
- Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Polisi Rheoli Data Ymchwil Newydd

## Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Mae Strategaeth Ymchwil y Brifysgol a Strategaeth Traweffaith Ymchwil a Chyfathrebu yn amlinellu gweledigaeth y Brifysgol o ymchwil sy'n trawsnewid ac sy'n cefnogi arloesi, dysgu a thwf economaidd, trwy gael ei gydnabod yn fyd-eang am ei wreiddioldeb, arwyddocâd a'i fanwl gywirdeb.

Mae'r holl staff a'r Myfyrwyr Ymchwil Ôl-radd yn derbyn sesiwn gynefino ymchwil pan fyddant yn ymuno gyda'r Brifysgol. Yn rhan o hyn, fe'u cyflwynir i ymrwymiadau'r Brifysgol i'r Cytundeb i Gefnogi Uniondeb Ymchwil a'r Cytundeb i Gefnogi Datblygiad Gyrfaol Ymchwilwyr.

Cyfrifoldeb y Swyddfa Ymchwil yw cadw'r holl staff a myfyrwyr PGR yn gyfredol gyda diweddariadau polisi a gweithdrefn, newyddion y sector, digwyddiadau hyfforddi a datblygu, a straeon o lwyddiant gydag ymchwil. Gwneir hyn drwy Newyddlen E-bost Ymchwil Misol, Cylchlythyr Ymchwil chwarterol, a Sgyrsiau Campws wythnosol mewnol. ECI2(b) Creu Cynllun Polisi Ymgysylltu a Chyfathrebu ar gyfer pob gweithdrefn a pholisi sy'n ymwneud ag ymchwil newydd.

Mae'r ddau gyfleuster wedi lansio Cyfres Seminarau Ymchwil, sef llwyfan sy'n agored i'r holl staff a myfyrwyr ar draws y Brifysgol. Mae'r cynhwysiant hwn yn rhan allweddol o'n gwaith presennol i hyrwyddo diwylliant ymchwil cadarnhaol a chynhwysol ym Mhrifysgol Wrecsam a chreu gofod agored a thryloyw ar gyfer ymchwilwyr er mwyn trafod prosiectau ymchwil presennol a syniadau ar y cyd.

## Diwylliant, datblygiad ac arweinyddiaeth

Mae Pwyllgor Ymchwil y Brifysgol yn goruchwylio uniondeb ymchwil y Brifysgol ar ran y Bwrdd Academaidd.

Person a Enwyd y Brifysgol ar gyfer Uniondeb Ymchwil yw'r Dirprwy Is-ganghellor Ymchwil, yr Athro Richard Day. Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall pryderon sy'n berthnasol i uniondeb ymchwil fod yn gymhleth ac yn hynod o sensitif, a gallai hyn gael effaith ar les emosiynol a meddylion y rhai sydd ynghlwm wrth hyn. Gall unrhyw berson sy'n dymuno codi, yn gyfrinachol, unrhyw bryderon ynghylch ymddygiad neu uniondeb ymchwil a gynhelir dan fantell y Brifysgol wneud hynny drwy gysylltu gyda'r Person a Enwyd ar gyfer uniondeb ymchwil, yr Athro Richard Day neu'r pwynt cyswllt a enwyd, Pennaeth Gwasanaethau Ymchwil, Frances Thomason.

Yn 2023-24 Mae Hwyluswyr Uniondeb Ymchwil nawr wedi cael eu recriwtio er mwyn gwreiddio uniondeb ymchwil ymhellach ar draws y cyfleusterau a gweithredu fel pwynt cyswllt lleol i godi unrhyw bryderon.

Mae Prifysgol Wrecsam yn credu y dylai holl aelodau o'n cymuned ymchwil gael rôl i'w chwarae wrth ddatblygu a hyrwyddo diwylliant ymchwil cadarnhaol a chynhwysol. Daeth y Brifysgol yn llofnodwyr y Concordat i Gefnogi Datblygu Gyrfa Ymchwilwyr yn 2021 a dyfarnwyd 10 mlynedd o Ragoriaeth Ymchwil AD yn 2024. Cafodd gweithgor o hyrwyddwyr cytundeb ei sefydlu gydag ymchwilwyr, myfyrwyr ymchwil a staff gwasanaethau proffesiynol ar draws y Brifysgol. Mae'r grŵp yn adolygu diwylliant ac amgylchedd yr holl ymchwilwyr yn y Brifysgol mewn ffordd ragweithiol ac ar hyn o bryd mae'n cynnal dadansoddiad o'r bylchau yn y Concordat Uniondeb Ymchwil.

### Monitro ac adrodd

Mae'r Pwyllgor Ymchwil yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn, a dwy eitem sefydlog ar yr agenda yw 'Adolygu Polisi ac Achosion o Gamymddygiad o fewn Ymchwil' ac 'Adolygu a Hyrwyddo Uniondeb Ymchwil'.

Mae'r Pwyllgor Moesau Ymchwil y Brifysgol, y Swyddog Ariannu Ymchwil a Phwyllgor Graddau Ymchwil y Brifysgol yn cynhyrchu adroddiad wedi'i ddiweddaru i'r Pwyllgor Ymchwil yn chwarterol.

Mae Strategaeth Ymchwil y Brifysgol a Strategaeth Ymchwil y Gyfadran yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Ymchwil.

Mae'r Pwyllgor Ymchwil yn derbyn adroddiadau cynnydd wedi'u diweddaru ar yr holl strategaethau a'r cynlluniau gweithredu, gan gynnwys Uniondeb Ymchwil, REF, Traweffaith a Chyfathrebiadau, a Datblygiad Ymchwil.

Mae anghenion datblygu staff yn cael eu hadnabod drwy'r weithdrefn Adolygu Datblygu Perfformiad (PDR) a Chynlluniau Ymchwil Personol (PRP) blynyddol, sy'n cynhyrchu rhaglenni hyfforddi a datblygu.

## Newidiadau a datblygiadau yn ystod y cyfnod a adolygir

Fel y manylwyd eisoes, mae'r Brifysgol wedi lansio System Foeseg Ymchwil Wrecsam newydd, wedi cyflwyno strwythur pwyllgor moesau haenog yn seiliedig ar lefel y risg sydd ynghlwm wrth brosiect ac mae ganddo dudalen Moesau Ymchwil gyhoeddus.

Cafodd y rhaglen hyfforddiant a datblygiad 2023-34 ei mapio yn erbyn Fframwaith Datblygu Ymchwilydd Vitae (RDF). Cafodd cyfanswm o 36 o sesiynau hyffordd ymchwilwyr eu darparu yn ystod 2023-24, gan gynnwys Cyflwyniad Foeseg Ymchwil, Cyflwyniad i Uniondeb Ymchwil a Deall Data Ymchwil.

Yn ddiweddar, mae Prifysgol Wrecsam wedi caffael y rhaglen hyfforddiant ar-lein Uniondeb Ymchwil 2.0 drwy'r llwyfan Epigeum. Mae'r hyfforddiant cynhwysfawr hwn wedi'i ddylunio i leihau'r risg o gamymddwyn ymchwil, rhoi hwb i hyder mewn gweithiau cyhoeddedig, a chwrdd ag anghenion asiantaethau sy'n ariannu. Bydd yr hyfforddiant ar gael i'r holl staff academaidd a'r Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig, gyda

modiwlau penodol yn cael eu gwneud yn orfodol ar gyfer myfyrwyr ymchwil yn eu blwyddyn gyntaf.

Y llynedd, cafodd y grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraethiant Gwybodaeth Ymchwil ei sefydlu, gan adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethiant Gwybodaeth a'r Pwyllgor Ymchwil. Yn 2023-2024, fe chwaraeodd y grŵp yma ran hanfodol yn rhoi polisïau allweddol ar waith megis y Polisi Rheoli Data Ymchwil, Hysbysiadau Preifatrwydd Cyfranogwyr Ymchwil, Cytundebau Rhannu/Prosesu Data, Cynlluniau Rheoli Data ac Asesiadau Traweffaith Amddiffyn Data.

Yn seiliedig ar ddadansoddiad y bylchau a gynhaliwyd gan y Brifysgol yn 2023, gan ddefnyddio'r Adnodd Hunan-asesiad UKRIO, cafodd cynllun gweithredu ei sefydlu er mwyn mynd i'r afael gyda'r bylchau presennol ac atgyfnerthu ein hymrwymiad i'r cytundeb ymhellach. Fel rhan o'r cynllun gweithredu hwn ac er mwyn cefnogi ei gyflawni, mae Hwyluswyr Uniondeb Ymchwil, un ym mhob cyfadran, wedi'u recriwtio er mwyn gwreiddio ymhellach ddiwylliant ac awyrgylch ymchwil o arfer gorau ar draws y cyfadrannau.

O fewn y 12 mis diwethaf, mae'r Brifysgol wedi rhoi ei strategaeth REF 2029 a chynllun gweithredu ar waith. Mae'r strategaeth yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i'r Cytundeb Uniondeb Ymchwil, gyda'r prif flaenoriaethau yn cynnwys cynnal amgylchedd ymchwil gadarnhaol sy'n gwreiddio cynhwysiant, uniondeb a bod yn agored a chreu diwylliant ymchwil sy'n cwmpasu "ymddygiadau, gwerthoedd, disgwyliadau, agweddau a normau ein cymunedau ymchwil ac sy'n dylanwadu ar lwybrau gyrfa ymchwilwyr, ac yn penderfynu ar y ffordd y mae ymchwil yn cael ei gynnal a'i gyfathrebu."

Mae'r Brifysgol hefyd wedi adolygu ei chofrestr risg corfforaethol yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae elfen ymchwil y gofrestr risg corfforaethol wedi cael ei adnewyddu er mwyn ffocysu ar y risgiau cysylltiedig o gynyddu dwysedd a safon yr ymchwil tra'n cynnal uniondeb a hyrwyddo diwylliant a'r gallu i gadw at ofynion llywodraethiant ymchwil ar draws pob carfan o fyfyrwyr a staff.

Dyfarnwyd 10 mlynedd o Ragoriaeth Ymchwil AD i'r Brifysgol yn 2024. Cafodd cynllun gweithredu tair blynedd ei mapio yn erbyn y Cytundeb i Gefnogi Datblygiad Gyrfa Ymchwilwyr ei gyhoeddi yn erbyn y tair colofn: Amgylchedd a Diwylliant, Cyflogaeth a Datblygiad Proffesiynol a Gyrfa.

## Adfyfyriadau ar gynnydd a chynlluniau ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol

Mae'r dadansoddiad bylchau a gynhaliwyd a'r cynllun gweithredu dilynol a ddeilliodd o honno ac a sefydlwyd yn 2023-34 wedi tynnu sylw at yr angen am sicrhau bod egwyddorion Uniondeb Ymchwil yn cael eu gwreiddio yn seilwaith a phrif strategaethau'r Brifysgol. Mae'r 12 mis diwethaf wedi cael eu hymroi i fewnosod ymrwymiadau'r Cytundeb, diwylliant ymchwil iechyd ac amgylchedd o arfer gorau ar draws prif strategaethau ymchwil a chynlluniau gweithredu'r Brifysgol. Gan adfyfyrio ar y cynlluniau y manylwyd arnynt yn ein datganiad blynyddol ar gyfer 2023-24, mae'r Brifysgol wedi lansio strategaeth REF2029 newydd, wedi cyhoeddi ein Cynllun Gweithredu Datblygu Ymchwilwyr 2023-2026, wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraethiant Gwybodaeth Ymchwil ac wedi datblygu rhaglen hyfforddiant yn benodol ar gyfer uniondeb ymchwil.

Mae ein hymrwymiad o ddod yn llofnodydd DORA ac adolygu ein polisïau a'n gweithdrefnau ynghylch Uniondeb Ymchwil a Chamymddwyn wedi cael eu symud ymlaen i'n cynlluniau ar gyfer 2024/25.

## Cynlluniau ar gyfer 2024/25

Fel y nodwyd, mae gan Brifysgol Wrecsam Gynllun Gweithredu Uniondeb Ymchwil sy'n seiliedig ar bum thema ar hyn o bryd: Polisïau a Gweithdrefnau, Diwylliant, Datblygiad ac Arweinyddiaeth, Mynd i'r Afael â Chamymddygiad Ymchwil a Monitro ac Adrodd. Mae'r cynllun gweithredu yn cael ei roi ar waith gan y Swyddfa Ymchwil a'i oruchwylio gan y Pwyllgor Ymchwil. Mae'r isod yn manylu ar rai o'r cynlluniau fel y manylir arnynt yn y cynllun gweithredu cyffredinol.

- Mae'r Brifysgol yn bwriadu ymrwymo a dod yn llofnodydd i'r Datganiad ar Asesiad Ymchwil San Francisco (DORA).
- Sefydlu Polisi Uniondeb Ymchwil a Gweithdrefn Camymddygiad Ymchwil.
- Adolygu Polisïau Mynediad Agored, Gweithdrefnau ac ystorfeydd yn y Brifysgol.
- Datblygu a chyhoeddi datganiad Sefydliadol ar Ddiwylliant Ymchwil
- Datblygu proses o adrodd ar bryderon cyfrinachol i'r swyddfa ymchwil.

# Adran 3: Mynd i'r afael â chamymddygiad ymchwil

## Datganiad ar brosesau sydd gan y sefydliad yn eu lle ar gyfer delio gyda honiadau o gamymddygiad

Mae cyfrifoldebau dros fonitro camymddygiad ymchwil yn y Brifysgol yn rhan o gyfrifoldebau'r Swyddfa Ymchwil sy'n adrodd i'r Pwyllgor Ymchwil sy'n cael ei gadeirio gan y Dirprwy Is-Ganghellor ymchwil. Mae cyfrifoldebau dros uniondeb academaidd yn rhan o gyfrifoldebau'r Tîm Uniondeb Academaidd o fewn Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr. Mae honiadau o gamymddygiad ymchwil sy'n ymwneud â staff Prifysgol a myfyrwyr ymchwil yn cael eu delio â hwy yn unol â darpariaeth Gweithdrefn Ddisgyblu'r Brifysgol ar gyfer Staff a/neu'r Weithdrefn Ddisgyblu ar gyfer Myfyrwyr a'r Weithdrefn Uniondeb Academaidd neu'r Weithdrefn Addasrwydd ar gyfer Gweithredu, fel sy'n briodol. Mae gan weithdrefnau perthnasol egwyddorion a pheirianwaith briodol er mwyn sicrhau bod ymchwiliadau'n drylwyr ac yn deg, a'u bod yn cael eu cynnal mewn modd tryloyw ac amserol, a'u bod yn cael eu hamddiffyn gan gyfrinachedd sy'n briodol.

Ni chafodd unrhyw achos o gamymddygiad ei ymchwilio iddo yn 2023/24 oedd yn berthnasol i staff na myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig.

## Gwybodaeth am ymchwiliadau o gamymddwyn ymchwil yr ymgymerwyd â hwy

| **Math o honiad** | **Nifer yr honiadau** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer yr honiadau yr adroddwyd amdanynt i'r sefydliad** | **Nifer yr ymchwiliadau ffurfiol** | **Nifer yr honiadau a gadarnhawyd yn rhannol yn dilyn ymchwiliad ffurfiol** | **Nifer yr honiadau a gadarnhawyd yn llawn yn dilyn ymchwiliad ffurfiol** |
| Celwyddau | | | | |
| Ffugio | | | | |
| Llên-ladrata | | | | |
| Methu â chwrdd ag ymrwymiadau moesol a phroffesiynol | | | | |
| Camliwio (e.e. data; ymwneud; diddordebau; cymhwyster; a/neu hanes cyhoeddiadau) | | | | |
| Delio gyda | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| honiadau o gamymddygiad mewn ffordd amhriodol | | | | |
| Meysydd niferus sy'n achosi pryder (pan dderbynnir hwy mewn honiad sengl) | | | | |
| *Arall** | | | | |